***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 2. (See end of Document for details)*

PROSPECTIVE

ATODLEN 14

DARPARIAETHAU TROSIANNOL A DARPARIAETHAU ARBED

**RHAN 2**

GWARCHEIDIAETH HENEBION

*Gorchmynion gwarcheidiaeth a wnaed o dan Ddeddf 1953*

5 (1) Pan fo Gweinidogion Cymru, yn union cyn i Ran 2 o'r Ddeddf hon ddod i rym, yn warcheidwaid heneb yn rhinwedd gorchymyn gwarcheidiaeth—

(a) a wnaed, neu a gaiff ei drin fel pe bai wedi ei wneud, o dan adran 12(5) o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion Hynafol 1953 (p. 49), a

(b) a barheir mewn grym gan baragraff 2(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p. 46),

mae'r gorchymyn yn parhau mewn grym er gwaethaf y ffaith bod y Rhan honno wedi dod i rym.

(2) Mae'r Rhan honno yn gymwys tra bo'r gorchymyn gwarcheidiaeth mewn grym fel pe bai Gweinidogion Cymru wedi cael eu penodi yn warcheidwaid yr heneb drwy weithred o dan adran 45 o'r Ddeddf hon—

(a) nad yw'n cynnwys unrhyw gyfyngiad nad yw wedi ei gynnwys yn y gorchymyn, a

(b) a gyflawnwyd gan yr holl bersonau a oedd, ar yr adeg pan wnaed y gorchymyn, yn gallu drwy weithred benodi Gweinidogion Cymru yn warcheidwaid yr heneb.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu gorchymyn gwarcheidiaeth y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 14 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

*Rheolaethu a rheoli heneb pan fo gwarcheidiaeth yn rhagddyddio Deddf 1979*

6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) cymerwyd heneb i warcheidiaeth cyn 9 Hydref 1981 (y dyddiad y daeth Rhan 1 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 i rym), a

(b) yn union cyn i Ran 2 o'r Ddeddf hon ddod i rym, bo'r heneb o dan warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

(2) Nid yw adran 47(2) (rheolaethu a rheoli'n llawn) yn gymwys i'r heneb oni bai—

(a) bod y weithred a oedd yn sefydlu gwarcheidiaeth yn darparu ar gyfer rheolaethu a rheoli'r heneb gan y gwarcheidwaid, neu

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 2. (See end of Document for details)*

(b) bod y personau y mae gweithrediad y weithred warcheidiaeth, am y tro, yn cael effaith uniongyrchol arnynt wedi cydsynio i'r gwarcheidwaid reolaethu a rheoli'r heneb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 14 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

*Mynediad y cyhoedd i heneb pan fo gwarcheidiaeth yn rhagddyddio Deddf 1913*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) cymerwyd heneb i warcheidiaeth cyn 15 Awst 1913 (y dyddiad y daeth Deddf Cydgrynhoi a Diwygio Henebion Hynafol 1913 (p. 32) i rym), a

(b) yn union cyn i Ran 2 o'r Ddeddf hon ddod i rym, bo'r heneb o dan warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

(2) Nid yw adran 55(1) (dyletswydd i sicrhau mynediad y cyhoedd) yn gymwys i'r heneb oni bai—

(a) bod y weithred a oedd yn sefydlu gwarcheidiaeth yn darparu ar gyfer mynediad y cyhoedd i'r heneb, neu

(b) bod y personau y mae gweithrediad y weithred warcheidiaeth, am y tro, yn cael effaith uniongyrchol arnynt wedi cydsynio i'r cyhoedd gael mynediad i'r heneb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 14 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

*Dehongli*

8 At ddibenion paragraffau 6 a 7, mae gweithrediad gweithred warcheidiaeth sy'n ymwneud â heneb yn cael effaith uniongyrchol ar berson os yw'r person wedi ei rwymo gan y weithred honno a bod yr heneb yn ei feddiant neu yn ei feddiannaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 14 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 2.